# PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 3 Ebrill 2013

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd J Arwel Roberts (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr W J Chorlton, E G Davies, R Dew, Jim Evans, K P Hughes, Vaughan Hughes, R L Owen ac Eric Roberts |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Datblygu Cynllunio (DFJ)<br>Cynorthwywyr Cynllunio<br>Uwch Beiriannydd Cynllunio (EDJ)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithio (RJ)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies a W T Hughes |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Aelodau Lleol: Cynghorydd Thomas Jones (cais 10.1); Cynghorydd R.G.Parry, OBE (cais 11.2); Cynghorydd Derlwyn Hughes (cais 12.2) |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd a nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb a nodwyd uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**3 COFNODION CYFARFOD 6 MAWRTH 2013**

Cadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2013.

**4 YMWELIADAU SAFLEOEDD**

Ni chynhaliwyd unrhyw ymweliadau safle yn dilyn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2013.

**5 Y CYHOEDD YN SIARAD**

Dywedodd y Cadeirydd y byddai aelodau o'r cyhoedd yn siarad ar geisiadau 7.1, 11.1 a 12.2

**6 CEISIADAU A FYDD YN CAEL EU GOHIRIO**

**6.1 39C285D – Cais llawn i godi 17 annedd ar dir yn Lôn Gamfa, Porthaethwy**

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio wrth y Pwyllgor bod gwaith ymgynghori yn mynd ymlaen ar hyn o bryd mewn perthynas â gwybodaeth ychwanegol/newydd ynglŷn â'r cais hwn yn ymwneud â mynedfa i'r safle a bydd y cais yn destun adroddiad unwaith y bydd y cyfnod rhybudd wedi dod i ben. Am y rheswm hwnnw, yr argymhelliad oedd gohirio ystyried y cais.

**Penderfynwyd gohirio ystyried y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**

**7 CEISIADAU YN CODI**

**7.1 19C313A – Cais amlinellol i godi 22 annedd ynghyd â chreu mynedfa newydd ar dir rhwng Pentrefelin a Stad Waenfawr, Caergybi.**

*(Dywedodd y Cynghorwyr R.L.Owen a Jim Evans nad oeddent wedi bod yn bresennol ar yr ymweliad safle yng nghyswllt y cais hwn ac na fyddent yn pleidleisio ar y mater).*

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio wrth y Pwyllgor bod llythyrau wedi eu derbyn gan asiant yr ymgeisydd ers i'r rhaglen gael ei chyhoeddi a bod cyfarfod wedi cael ei drefnu ar 17 Ebrill gyda'r Adran Priffyrdd i drafod y fynedfa i'r safle. Dywedodd y Swyddog ei fod am ofyn felly i'r Pwyllgor ohirio ystyried y cais yn y cyfarfod heddiw fel y gellid cynnal y cyfarfod hwn. Efallai y bydd yr hyn a drafodir yn y cyfarfod hwnnw a'r canlyniad yn cael dylanwad ar y cais, felly roedd y Swyddogion yn barod i ohirio unrhyw ystyriaeth ar y cais.

Mynegodd y Cynghorydd W.J.Chorlton nad oedd yn hapus ynglŷn ag oedi pellach o ystyried yr amser y bu'r cais ar y gweill, ac awgrymodd y gellid delio gyda mater y fynedfa drwy osod amod yn dweud bod yn rhaid dod i gytundeb ynglŷn â'r fynedfa i'r safle.

Dywedodd y Cynghorydd Kenneth Hughes bod mater y fynedfa yn un bwysig a bod angen ei drafod ac felly roedd am gynnig y dylid gohirio unrhyw ystyriaeth ar y cais. Eiliwyd ei gynnig gan y Cynghorydd Eric Roberts.

**Penderfynwyd gohirio ystyried y cais am y rhesymau a roddwyd.**

**8 CEISIADAU ECONOMAIDD**

Nid ystyriwyd unrhyw geisiadau economaidd yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**9 CEISIADAU AM DAI FFORDDIADWY**

Nid ystyriwyd unrhyw geisiadau am dai fforddiadwy yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**10 CEISIADAU YN GROES I BOLISI**

**10.1 38C180D – Cais amlinellol i godi annedd ynghyd â chreu mynedfa newydd i gerbydau ar dir yn Gilfach Glyd, Llanfechell**

Roedd y cais hwn gerbron y Pwyllgor oherwydd ei fod yn groes i bolisi ond gyda'r Swyddogion yn bwriadu ei ganiatáu.

Tynnodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio sylw'r Pwyllgor at y ffaith bod cais amlinellol i godi annedd a chreu mynedfa newydd wedi ei gymeradwyo ym Mehefin 2011 er bod hwnnw ar gyfer plot o faint llai ond mae'r cais sydd o dan ystyriaeth yn awr yn fwy ac mae lleoliad yr annedd yn wahanol a dyna'r rheswm pam fod angen ei gyflwyno a'i ailgymeradwyo.

Dywedodd y Cynghorydd Thomas Jones, yr Aelod Lleol, nad oedd yn dymuno gwrthwynebu'r cais mewn egwyddor ond ei fod yn dymuno tynnu sylw at y ffaith bod pibell carthffosaeth ar y safle a bod angen felly caniatáu pellter o 12 metr rhwng y bibell ag unrhyw adeilad arfaethedig ac mai hynny oedd y rheswm dros ail-leoli'r datblygiad. Roedd hefyd yn dymuno nodi bod y safle ar ffin terfyn dangosol Mynydd Mechell ac oherwydd yr angen i leoli'r adeilad ymhell oddi wrth y bibell carthffosaeth, bydd yr annedd arfaethedig yn awr yn sefyll ar ei phen ei hun ac yn fwy amlwg. Dywedodd y Cynghorydd Jones ei fod yn fodlon gyda'r cais fel ag yr oedd, ond roedd angen gwneud sylw bod ceisiadau tebyg wedi eu gwrthod ac roedd yn credu bod y cais hwn reit ar ffin y dehongliad o bolisi.

Cafwyd cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor ynglŷn â'r agwedd i'w chymryd mewn achosion o'r fath yn arbennig o ran bod yn gyson ac o ystyried y bydd y datblygiad arbennig hwn yn awr yn fwy amlwg ac wedi ei leoli tua chanol y cae.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod yn rhaid asesu pob cais a gwneud penderfyniad yn seiliedig ar rinweddau'r cais unigol a chan roi sylw i'r ystyriaethau a'r wybodaeth oedd gerbron. Ategodd y Cadeirydd bod caniatâd cynllunio eisoes wedi ei roi ar ran o'r safle.

Cynigiodd y Cynghorydd Kenneth Hughes y dylid caniatáu'r cais. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd R.L.Owen.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau oedd yn ei adroddiad.**

## 11 CYNIGION CYNLLUNIO A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION

### 11.1 36C323 – Cais amlinellol i godi annedd ynghyd âg adeiladu mynedfa i gerbydau ar dir ger Awel Haf, Llangristiolus

Daethpwyd a'r cais hwn gerbron y Pwyllgor oherwydd bod yr ymgeisydd yn perthyn i Aelod Lleol. Roedd y cais wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sydd yn ofynnol o dan baragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

Rhoddodd y Cadeirydd wahoddiad i Mr Rob Hughes ddod ymlaen i siarad gerbron y Pwyllgor o blaid y cais.

Nododd Mr Hughes y pwyntiau canlynol –

- Mae'r cais yn disgyn yn amlwg dan Bolisi 50 Cynllun Lleol Ynys a Pholisi HP4 y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd. Roedd yn credu ei fod yn estyniad bychain rhesymol i anheddiad diffiniedig Llangristiolus.
- Ystyrir bod ceisiadau am blotiau unigol ar ffin anheddiad yn dderbyniol odan Bolisi 50. Roedd yn credu bod y cais yn cydymffurfio gyda Pholisi 50 oherwydd ei fod wedi ei leoli o fewn ffin resymol a naturiol a diffinedig yr anheddiad. Mae yna 3 annedd sy'n ymestyn y tu hwnt i'r cais arfaethedig ar ochr arall y B4422 ac o fewn y parth 40mya.
- Er ei fod yn cael ei dderbyn bod y plot mewn cae amaethyddol agored, nid oedd yr ymgeisydd yn ystyried ei fod yn cyfrannu'n sylweddol at gymeriad yr ardal. Byddai'n gwerthfawrogi derbyn safbwynt y Swyddog ar y pwynt hwn.
- Ni all y ffaith y gallai'r cais olygu y byddai fwy o ddatblygu yn y dyfodol ar y tir amaethyddol hwn fod yn ystyriaeth o bwys oherwydd bod yn rhaid penderfynu ar bob cais ar eu rhinweddau eu hunain. Ni ddylai'r defnydd a wneir o'r tir yn y dyfodol fod yn ffactor gyda phenderfynu'r cais.
- Barn y Swyddog yn yr adroddiad oedd y byddai'r cais yn ymestyn y ffurf adeiledig ymhellach i mewn i'r cefn gwlad ac y byddai felly yn creu ymwthiad annerbyniol i'r dirwedd gyda hynny'n niweidio cymeriad ac amwynder yr ardal. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn cymharu'r cais hwn i safleoedd eraill ger llaw e.e. Capel Mawr - oedd yn cael ei ddiffinio fel clwstwr ac nid anheddiad lle gwelwyd pum datblygiad tebyg yn cael eu caniatáu o fewn yr ychydig flynyddoedd diwethaf.
- Mae argraffiad 5 Polisi Cynllunio Cymru yn dweud y dylai datblygiadau newydd fod wedi ei hintegreiddio a'u cysylltu'n dda i batrwm presennol yr anheddiad. Ym marn yr ymgeisydd, roedd y cais hwn yn cydymffurfio gyda hynny oherwydd bod y terfyn presennol yn ymestyn ymhellach na'r hyn oedd yn cael ei gynnig yn y cais hwn. Ni all datblygu rhubanaidd felly fod yn ystyriaeth o bwys yn yr achos hwn.
- Roedd yr ymgeisydd yn credu na ddylid ystyried ymdoddiad yn y cais hwn oherwydd bod y terfyn diffinedig i'r anheddiad wedi ei sefydlu'n barod a'i fod yn ymestyn yn sylweddol bellach na'r hyn a gynigir dan y cais hwn.
- Roedd yr ymgeisydd am gwestiynu sut y byddai'r cais hwn yn rhagfarnu gweithrediad Polisi 50 oherwydd y dylid ystyried pob cais ar ei rinweddau ei hun.
- Mae Llangristiolus yn bentref poblogaidd gyda gwasanaethau ardderchog. Mae'r cynnig yn gweddu o ran maint, crynswth a dyluniad y lleoliad. Yn ychwanegol at hyn ceir galw am dai

o ansawdd o fewn yr ardal. Ni all y datblygiad hwn ond gwella'r fynedfa i'r pentref trwy wneud defnydd o ddeunyddiau ansawdd uchel ac fe allai fod yn fantais i'r briffordd oherwydd ailalinio'r ffin i'r briffordd trwy ymestyn y llwybr troed presennol.

- Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau gan y cyhoedd i'r cais hwn ac y mae'r Cyngor Cymuned a'r Aelod Lleol, y Cynghorydd W.I.Hughes yn cefnogi'r cais.

Dygodd y Cadeirydd sylw at gywiriad ar dudalen 23 yn adroddiad ysgrifenedig y Swyddog lle dylai'r argymhelliad yn y fersiwn Saesneg ddarllen "Refuse" ac nid "Permit".

Rhoes y Rheolwr Datblygu Cynllunio diweddariad i'r Pwyllgor ar y sylwadau a dderbyniwyd ers cyhoeddi'r rhaglen sef dau lythyr yn gwrthwynebu'r cais oherwydd problemau draenio; cerbydau yn mynd a dod o'r datblygiad a'r posibilrwydd y gallai caniatâd cynllunio arwain at ddatblygu'r safle ymhellach. O ran yr ystyriaethau cynllunio perthnasol, roedd y Swyddog o'r farn y byddai datblygiad preswyl ar y safle yn cyfateb i ddatblygu'r cefn gwlad y tu hwnt i'r ffin resymegol. Mae Polisi 50 Cynllun Lleol Ynys Môn yn caniatáu ar gyfer ceisiadau un plot ar yr amod nad ydynt yn cael effaith andwyol ar y dirwedd. Ymhellach, mae safle'r cais y tu allan i ffin ddatblygu Llangristiolus fel y'i diffinnir ym Mholisi HP4 Y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd. Ym marn y Swyddog, mae'r gwrychyn yn ffin glir a phendant i'r pentref a byddai ymestyn y tu hwnt i'r ffin honno yn creu ymwthiad annymunol i'r cefn gwlad. Yn groes i'r hyn a ddywedwyd gan yr ymgeisydd a'i gefnogwr, gall yr Awdurdod Cynllunio ystyried a yw'r datblygiad yn gosod cynsail ai peidio i'r graddau y byddai'n creu amgylchiadau a fyddai'n ei gwneud yn anodd i wrthod datblygiadau pellach yn y cae.

Dywedodd y Cynghorydd W.J.Chorlton ei fod yn ei chael yn anodd penderfynu ar y cais hwn oherwydd, iddo ef, ymddangosai'r plot a'r cais yn rhesymol. Dygodd sylw at y ffaith fod pwysau ar y Cyngor hefyd i gadw'r cefn gwlad a'r cymunedau gwledig yn hyfyw ac os byddai ceisiadau megis y cais hwn yn cael eu gwrthod lle fedrai pobl fynd? Yn ei farn ef, roedd y groesffordd yn ffin fwy rhesymegol na'r gwrychyn. Roedd y Cynghorydd E.G. Davies o'r un farn a'r Cynghorydd Chorlton ac roedd yntau hefyd yn ansicr ynghylch pa benderfyniad i'w wneud ar y cais? Gofynnodd y Cynghorydd R.LOwen a fyddai modd efallai goresgyn y broblem o'r posibilrwydd o ddatblygiad rhubanaidd drwy fynnu ar amod yn dweud na chaniateir unrhyw ddatblygiad pellach ar y safle. Ymatebodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio drwy ddweud bod rhaid delio gyda'r cais ar ei rinweddau ei hun ac nad oedd rhoddi amod yn y modd a awgrymwyd yn goresgyn y materion polisi sy'n codi yn yr achos hwn.

Roedd y Cynghorydd Kenneth Hughes o'r un farn a'r Swyddog ac yn derbyn bod y gwrychyn yn ffin bendant ac yn teimlo y gallai codi un annedd greu problemau o ran datblygiad rhubanaidd. O'r herwydd, cynigiodd y dylid gwrthod y cais ac fe eiliwyd ei gynnig gan y Cynghorydd Jim Evans.

**Penderfynwyd gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**

**11.2 48C182 – Cais amlinellol ar gyfer codi annedd fforddiadwy, creu mynedfa i gerbydau ynghyd â gosod system trin carthion ar dir ger Bryn Twrog, Gwalchmai**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor wneud penderfyniad arno oherwydd bod yr ymgeisydd yn perthyn i swyddog perthnasol. Cafodd y ffeil ei harchwilio gan y Swyddog Monitro.

Wrth annerch y Pwyllgor yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Lleol, dygodd y Cynghorydd R.G.Parry, OBE sylw'r Aelodau at y map o'r safle a'r llun er mwyn dwyn sylw at y ffaith bod yna dai ar hyd y lon o'r cloc i Walchmai ac y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer byngalo ynghyd â chais i addasu adeilad ar ddiwedd y ffordd yn annedd. Merch ifanc o Walchmai yw'r ymgeisydd yn yr achos hwn sydd newydd orffen ei chwrs yn y coleg ac sy'n chwilio am dŷ fforddiadwy yn ei hardal leol. Gofynnodd i'r Aelodau ystyried bod angen helpu pobl ifanc i aros yn eu cymunedau er mwyn cadw'r cymunedau hynny yn fyw a phwysleisiodd bod diffyg tai fforddiadwy yng Ngwalchmai a'r ardal o gwmpas y pentref. Mae'r cais hwn yn gyfle i ferch ifanc leol aros yn ei chymuned.

Cadarnhaodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod yr Awdurdod Priffyrdd yn fodlon gyda'r cais ond gydag amodau; mae'r Adain Ddraenio hefyd wedi dweud bod y cais yn dderbyniol a chafwyd ymateb gan yr Adran Dai yn dweud bod amgylchiadau personol yr ymgeisydd yn golygu ei bod angen tŷ. Yn ogystal, dygodd y Swyddog sylw'r Aelodau at y ffaith mai 10 Ebrill ac nid 5 Ebrill yw'r dyddiad cau ar

gyfer derbyn sylwadau ar y cais.  O ran yr ystyriaethau cynllunio, cyfeiriodd y Swyddog yr Aelodau at dudalen 28 yr adroddiad ysgrifenedig sy'n nodi'r pwyntiau perthnasol. Cadarnhaodd bod polisïau cynllunio ar gael sy'n caniatáu rhyddhau tir ychwanegol i bwrpas tai fforddiadwy yn ychwanegol at y tir sydd ar gael i gwrdd â galw cyffredinol am dai mewn amgylchiadau lle nad oes modd i bobl leol gystadlu ar y farchnad agored ac nad oes modd cwrdd â'u hangen am dŷ fforddiadwy mewn modd arall.  Fodd bynnag, rhaid i geisiadau o'r fath fod yn berthnasol i safleoedd priodol yn y pentrefi cyfredol neu yn yr ardal sydd union o'u cwmpas.  Yn adroddiad y Swyddog, dywedir yn glir nad yw safle'r cais fel y cynigir ef o fewn nac yn union yn ymyl ffin ddatblygu Gwalchmai ac, yn hytrach, mae wedi ei leoli yn y cefn gwlad lle mae polisïau llym yn berthnasol a rhaid bod cyfiawnhad dros godi tai newydd. Nid yw gwneud eithriad ar gyfer y rheini sydd angen tŷ yn berthnasol o dan bolisïau o'r fath. Ni chafwyd unrhyw fanylion am yr annedd ei hun ac nid ofynnwyd am y manylion chwaith oherwydd bod y cais yn syrthio wrth y rhwystr cyntaf oherwydd nad yw'n cydymffurfio gyda pholisïau perthnasol.  I gloi felly, nid yw safle'r cais yn cwrdd â gofynion polisi ac mae'r argymhelliad yn un o wrthod.

Roedd mwyafrif y Pwyllgor o'r farn bod y cais yn un rhesymol a haeddiannol.  Dygodd yr Aelodau sylw at y ffaith fod gan y Cyngor gyfrifoldeb i gynnal a hyrwyddo cymunedau lleol a bod cefnogi a chynorthwyo pobl ifanc yn eu hymdrechion i aros ar yr Ynys yn eu cymunedau eu hunain yn rhan o'r cyfrifoldeb hwnnw.  Gan gadw mewn cof y diffyg tai fforddiadwy yng Ngwalchmai a phresenoldeb tai eraill ar y lôn at ac o fewn ardal safle'r cais, y teimlad cryfaf oedd y dylid caniatáu'r cais.  Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts y dylid cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog ac fe eiliwyd ei gynnig gan y Cynghorydd Richard Dew.

Roedd y Cynghorydd Jim Evans o'r un farn a'r Swyddog ar y mater a chynigiodd wrthod y cais.  Eiliodd y Cynghorydd J.Arwel Roberts y cynnig.

Atgoffodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio y Pwyllgor bod y cais yn tynnu'n groes i bolisïau tai'r Cyngor.

Pleidleisiodd y Cynghorwyr Jim Evans a J.Arwel Roberts i wrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog.

Pleidleisiodd y Cynghorwyr Richard Dew, Kenneth Hughes, R.LOwen, E.G.Davies, Vaughan Hughes a Eric Roberts i gymeradwyo'r cais a hynny'n groes i argymhelliad y Swyddog.

Ymatalodd y Cynghorydd W.J.Chorlton rhag pleidleisio.

Y rheswm a roddwyd am gymeradwyo'r cais oedd ei fod yn gyfle i berson ifanc sy'n dymuno aros yn ei chymuned i gael tŷ fforddiadwy.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais a hynny'n groes i argymhelliad y Swyddog.  Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, bydd y cais yn awtomatig yn cael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf fel y gall swyddogion baratoi adroddiad ar y rhesymau dros gymeradwyo'r cais.**

## 12 GWEDDILL Y CEISIADAU

**12.1 12C266H - Cais i ddiwygio amodau (04) a (06) ar ganiatad cynllunio rhif 12C266G i ganiatau cyflwyno manylion lefelau slabiau arfaethedig yr adeilad(au) a chynllun ar gyfer darparu a gweithredu system draenio dŵr wyneb ar ôl cychwyn gwaith ar y safle yn ABC Power Marine, Penrhyn Safnas, Biwmares**

Cyflwynir y cais i'r Pwyllgor oherwydd mai Cyngor Sir Ynys Môn sydd biau'r tir.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio wrth y Pwyllgor bod y Swyddog Draenio ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cadarnhau bod y cais yn un derbyniol.

Cynigiodd y Cynghorydd Kenneth Hughes y dylid cymeradwyo'r cais ac eiliwyd ei gynnig gan y Cynghorydd Jim Evans.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ysgrifenedig.*(Fel Aelod Lleol, ni phleidleisiodd y Cynghorydd R.L.Owen ar y mater)***

**12.2 40C48E/EIA – Dymchwel yr adeilad bad achub a'r llithrfa bresennol ynghyd â chodi adeilad bad achub a llithrfa newydd yn Gorsaf Bad Achub, Moelfre.**

Cyflwynir y cais i'r Pwyllgor oherwydd ei fod yn destyn Asesiad Effaith Amgylcheddol.

Rhoes y Cadeirydd wahoddiad i Mr Elfed Jones, un sy'n gwrthwynebu'r cais, i annerch y Pwyllgor.

Dywedodd Mr Jones ei fod yn siarad o'i galon ar y mater hwn fel cyn aelod o Fad Achub Moelfre am 36 o flynyddoedd a'i fod yn bresennol ar ran nifer o drigolion y pentref a oedd hefyd yn gwrthwynebu'r cais - nid oherwydd nad oeddynt am weld bad achub newydd ond oherwydd y byddai'r adeilad arfaethedig ar gyfer y bad achub sydd mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol bron dwywaith cymaint â'r adeilad cyfredol.  Petai unrhyw un eisiau codi tŷ neu dyrbin gwynt ar yr arfordir ym Moelfre, ni fyddid yn rhoddi caniatâd.  Er bod mater y bad achub yn bwnc sentimental iawn ac hynny i'w ddeall, maen ffaith hefyd y bydd yr adeilad yno am 100 mlynedd.  Mae'r ymgeiswyr eisiau cau'r llwybr arfordirol am 2 flynedd ac adeiladu lôn - dygodd Mr Jones sylw at y ffaith bod y ffordd i lawr i dŷ'r bad achub yn hynod beryglus a bod ceir yn dod i lawr y lon fel gwallgofon pan geir galwad am wasanaeth y bad.  Y teimlad yw bod yr RNLI wedi mynd o gwmpas pethau yn chwithig ac wedi prynu'r dodrefn cyn codi'r tŷ.  Oni ddylai'r Sefydliad fod wedi gofyn am ganiatâd i adeiladu'r tŷ yn gyntaf cyn dod a'r dodrefn i mewn?  Dywedodd Mr Jones ei fod o'r farn bod y Sefydliad wedi trin trigolion Moelfre yn warthus a'i fod o ei hun a'i deulu o Foelfre. Pwysleisiodd nad oedd trigolion yn erbyn y bad achub ond nad ydynt yn gweld pam mae Moelfre angen tŷ bad achub ar y raddfa a gynigir.  Petai'r Sefydliad eisiau bad achub o'r safon hon yn yr ardal dylid bod wedi ei lleoli mewn man arall ym Mhorth Amlwch.  Gofynnodd i Aelodau'r Pwyllgor wrth benderfynu ar y cais, feddwl am drigolion Moelfre a fydd yn gorfod byw gyda'r adeilad arfaethedig am y 100 mlynedd nesaf a bod hyn yn drychineb.  Gofynnodd i'r Aelodau ystyried y cais yn ofalus iawn.

Nid ofynnwyd unrhyw gwestiynau i Mr Jones gan Aelodau'r Pwyllgor.

Yna, rhoes y Cadeirydd wahoddiad i Mr Mathew Croft i siarad i gefnogi'r cais.

Cyflwynodd Mr Croft ei hun fel Rheolwr Gweithrediadau Rhanbarthol yr RNLI ac eglurodd ei fod yn bresennol ar ran y siaradwr a oedd i fod yma sef Mr Howard Richings.

Dywedodd Mr Croft ei fod yn cydymdeimlo'n fawr gyda sylwadau'r gymuned ym Moelfre a'i fod yn teimlo ei fod yn glir iawn fod yr RNLI wedi gwrando ar y sylwadau hynny ac wedi diwygio'r cynlluniau ar gyfer y tŷ cwch ar ôl gwrando ar bryderon y bobl.  Pan brynwyd gorsaf gyfredol y bad achub yn 1988 roedd yn gwch hynod fodern ar y pryd.  Fodd bynnag, mae pethau wedi datblygu ac mae'r sefydliad wedi symud ymlaen i fad achub fwy newydd – bad achub Dosbarth Tamar a fydd, ym marn y Sefydliad, yn sicrhau dyfodol y gwasanaeth chwilio ac achub ym Moelfre am y 25 mlynedd nesaf. Mae'n borthladd cysgodi pwysig ac ystyrir ei fod yn hanfodol bod ased chwilio ag achub yn y coridorau llongau y mae'n eu goruchwylio.  Yn y cyfnod y mae'r orsaf bad achub wedi bod ym Moelfre mae wedi arbed 1,441 o fywydau ac ers 1970, mae'r bad pob tywydd wedi bod allan 532 o weithiau.  Mae'n amlwg bod angen yr orsaf.  Mae'r bad achub Tamar fel yr un sy'n disodli'r bad achub Time Class, yn fwy diogel, yn fwy effeithiol a bydd yn rhoi mwy o ddiogelwch i'r criw i sicrhau eu bod yn medru mynd allan ac achub pobl sydd mewn trybini.  Dyna'r rheswm pam y dewiswyd y Tamar.  Mae'r Sefydliad, fel elusen, wedi edrych ar opsiynau eraill gan gynnwys Amlwch, ond Tamar yw'r opsiwn gorau ar gyfer yr orsaf hon.  Ni fydd unrhyw newid yn sut mae'r cwch yn cael ei weithredu - bydd y bad achub yn dal i fynd allan i'r môr gyda chriw fel y mae wedi ei wneud erioed yng nghymuned Moelfre ac ni ragwelir unrhyw newidiadau o ran sut y bydd hynny yn gweithredu i'r dyfodol.  Mae'r Sefydliad hefyd yn gwneud buddsoddiad sylweddol yn yr ardal ac ystyrir ei fod yn bwysig ei fod yn dangos bod y buddsoddiad hwnnw yn cael ei wneud ar sail angen - oherwydd bod ei angen i achub bywydau ar y môr.  Bydd rhaid cau rhan fechan o lwybr yr arfordir am gyfnod byr iawn er diogelwch pobl a fyddai'n cerdded ar hyd y llwybr dan fraich y craen.   Gwneir pob ymdrech i leihau'r effaith ar y gymuned i'r eithaf ac ymdrechir cael cefnogaeth y gymuned i sicrhau bod y sefydliad yn gweithio gyda hi ar gyfer y gwasanaeth hanfodol hwn.  Aeth Mr Croft ymlaen i ddweud

ei fod wedi bod yn gwasanaethu ar fadau achub am 20 mlynedd a gofynnwyd iddo yn aml sawl gwaith yr oedd wedi achub pobl. Ei ateb oedd 5 oherwydd 5 oedd y nifer o bobl nad oedd wedi medru eu hachub a bydd y bad achub newydd yn gyfle i newid sefyllfa o 90% i 97% o ran cyrraedd pobl yn gyflymach ac yn fwy effeithlon. Er nad yw'n ymddangos yn uchel iawn, mae 7% yn ganran sy'n arbed bywydau.

Holwyd Mr Croft gan Aelodau'r Pwyllgor mewn perthynas â pha mor hir y disgwylir y bydd y llwybr arfordirol ar gau; y newidiadau a wnaed i'r cynlluniau gwreiddiol ar gyfer gorsaf y bad achub i roi sylw i bryderon y gymuned, a'i maint.

Yn ei ymateb dywedodd Mr Croft y bydd y llwybr arfordirol ar gau am yr amser lleiaf y bydd yn rhaid ei gymryd i sicrhau bod pobl yn ddiogel. Disgwylir y bydd y gwaith adeiladu yn cymryd 2 flynedd ar y mwyaf. Mae'r gwaith adeiladu ym Mhorth Dinllaen er enghraifft ar darged i gwrdd â'r amserlen o rhwng 12 a 18 mis a bydd y sefydliad yn ceisio gweithio gyda'i gontractwyr i sicrhau cyfyngu i'r eithaf ar unrhyw anhwylustod ac i sicrhau hefyd na fydd y llwybr ar gau am fymryn mwy nag sydd raid. O ran dyluniad y datblygiad arfaethedig, roedd y dyluniad gwreiddiol yn cynnwys mwy o le a oedd yn gwneud y tŷ cwch gwreiddiol yn fwy. Wrth ymgynghori gyda'r gymuned leol daeth yn glir nad oedd hynny yn dderbyniol; tynnwyd y cais cynllunio yn ôl felly er mwyn adolygu'r cynlluniau a llwyddodd y sefydliad i weithio gyda'r Cyngor i ddatblygu adnoddau ychwanegol yn y Wylfan. Mae hynny wedi caniatáu i'r sefydliad ostwng ôl troed yr adeilad fel nad yw ond yn cynnwys y lle sydd raid wrtho ar gyfer rhan o'r tŷ cwch a'r cyfleusterau angenrheidiol ar gyfer y criw. O'r herwydd, mae'r ôl troed wedi gostwng yn sylweddol ers y cynlluniau gwreiddiol a'r cynllun cyfan bellach yw bod digon o le ar gyfer cadw'r cwch yn ddiogel ac yn effeithlon. Bydd y sefydliad yn defnyddio'r Wylfan ar gyfer y gweithgareddau y byddai'n dymuno ymgymryd â nhw i ychwanegu at y gymuned ym Moelfre. Cadarnhaodd Mr Croft nad yw'r tŷ cwch arfaethedig, yn ei farn ef, yn fwy nag sydd raid iddo fod i'r bad achub fedru gweithredu'n ddiogel ac yn effeithlon ar gyfer y cyfnod nesaf.

Siaradodd y Cynghorydd Derlwyn Hughes fel yr Aelod Lleol ar gyfer Moelfre. Dywedodd bod rhai pwyntiau dilys wedi eu codi yn y llythyrau o sylwadau ac yr oedd angen rhoi sylw iddynt ac y byddai ei anerchiad yn cyfeirio at y pwyntiau hynny a'r pryderon sydd wedi ychwanegu at yr oedi o ran penderfynu'r cais. Esboniodd y Cynghorydd Hughes nad yw'r cais hwn yn un a oedd wedi ei gyflwyno'n ddisymwth oherwydd treuliwyd dwy flynedd arno ac roedd yn gobeithio y byddai'n cael ei benderfynu yn y cyfarfod heddiw. Ymgynghorwyd ymhellach ar yr Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, Dwr Cymru a'r Cyngor Cefn Gwlad. Ystyriwyd y pryderon a godwyd ac roedd yr asiantaethau perthnasol yn fodlon. Roedd yn credu bod y Gwasanaeth Cynllunio wedi bod yn drwyadl - diwygiwyd y cynlluniau yn dilyn sylwadau a gafwyd mewn sawl trafodaeth gyda dylunwyr a phenseiri cyn cyflwyno'r cynllun swyddogol. Dywedodd y Cynghorydd Hughes nad oedd wedi ymateb yn unigol oherwydd ei fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned ar 26 Medi 2012 pan drafodwyd y cais. Gan ei fod yn bresennol yn y cyfarfod o'r Cyngor Cymuned roedd yn deall felly mai'r drefn arferol yw bod y Cyngor yn ymateb i geisiadau. Roedd y gefnogaeth yn unfrydol. Mae un o'r llythyrau sy'n gwrthwynebu'r cais yn nodi yn anghywir y cyswllt rhwng y Pwyllgor Lleol a'i aelodau. Mae dau aelod o'r criw yn gwasanaethu ar y Cyngor Cymuned. Aeth y Cynghorydd Hughes ymlaen i ddarllen dyfyniad o gofnodion y cyfarfod a oedd yn dangos cefnogaeth gref y Cyngor Gymuned i'r cynnig ar sail bod angen cadw'r bad achub er mwyn arbed bywydau; ei rôl ganolog fel rhan o hanes a thraddodiad y pentref; cydnabyddiaeth eang i'r criw, y sgiliau gwerthfawr y mae pobl ifanc a gwirfoddolwyr yn eu hennill trwy weithio gyda'r adnodd; refeniw i'r pentref a gwaith amser llawn i 2 o bobl. Mae'n anochel bod rhai o'r criw a ffrindiau'r RNLI yn gwasanaethu ar amryfal bwyllgorau yn y pentref a'r ardal - dyna sydd yn gwneud cymuned - unigolion yn chwarae eu rhan ac yn cyfrannu yn gadarnhaol er lles ei thrigolion. Roedd y Cynghorydd Hughes yn dweud ei fod wedi synnu at y cyfeiriad i leoli'r bad achub yn rhywle arall ac at ddefnyddio Porth Amlwch fel angorfa barhaol - mae traddodiad a hanes sefydliad y cwch ym Moelfre ac roedd yn gobeithio mai dyna lle byddai'n parhau. Mae'r sefydliad yn rhan bwysig o'r gymuned leol ac mae Moelfre wedi hoelio ei hanes morol balch ar gyflawniadau'r amryw griwiau. Er bod cyflwyno bad achub newydd yn ddigwyddiad dramatig, mae cynnydd a datblygiad yn rhan o'r sefydliad RNLI fel popeth arall. Gofynnodd y Cynghorydd Hughes i'r Pwyllgor gymeradwyo'r cais fel bod modd edrych ymlaen i gyfnod cyffrous newydd yn hanes y bad achub ym Moelfre - dyna beth mae'r ardal a'r pentref yn ei ddisgwyl ac yn gobeithio amdano ar ôl cyfarfod heddiw.

Dywedodd y Rheolydd Datblygu Cynllunio bod rhagor o lythyrau wedi dod i law ers drafftio'r adroddiad, sef llythyrau o blaid ac yn erbyn y cais, gan olygu bellach bod 13 o lythyrau yn

gwrthwynebu'r cynnig a 43 o lythyrau o blaid. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau yw 4 Ebrill ac os bydd yr Adran yn derbyn unrhyw wybodaeth / sylwadau pellach ar ol cyfarfod heddiw sy'n sylweddol wahanol, yna bydd y cais yn dod yn ol i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf. Mae'r Gwasanaeth Priffyrdd wedi cadarnhau eu bod yn fodlon gyda'r datblygiad yn amodol ar gynnwys amodau bod rhaid cael cytundeb ymlaen llaw ynghylch y dull gweithredu ar y safle. Dygodd y Swyddog sylw hefyd at newid arfaethedig i Amod (2) yn yr adroddiad i gynnwys dyddiadau penodol ar gyfer cyflwyno a chytuno'r cynlluniau y cyfeirir atynt dan yr amod hwnnw. Aeth y Swyddog ymlaen i ddweud ei fod yn casglu o'r holl sylwadau a wnaed nad oedd y rheini yn y gymuned leol a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig yn erbyn y datblygiad mewn egwyddor, ond eu bod yn gwrthwynebu ar sail maint a dyluniad y tŷ cwch arfaethedig. Cafwyd trafodaethau adeiladol rhwng yr ymgeisydd a swyddogion cynllunio ynghylch cyflwyno dyluniad derbyniol, sef y prif ffactor i'r swyddogion yn eu hystyriaethau. Dangosodd y Swyddog y newidiadau a wnaed trwy gyfeirio at lun a oedd yn dangos y cynnig gwreiddiol a'r un diwygiedig. Roedd y cais gwreiddiol yn fwy ac fe gafodd ei dynnu yn ol oherwydd bod Swyddogion yn ystyried ei fod yn annerbyniol. Daethpwyd i gyfaddawd ac mae'r cynllun diwygiedig yn dderbyniol o ran defnydd o dir ac effaith y datblygiad ar y dirwedd gyfagos. O'r herwydd, mae'r argymhelliad yn un o gymeradwyo. Mewn perthynas â llwybr yr arfordir, eglurodd y Swyddog y bydd y llwybr yn cael ei wyro o gwmpas y cwmpawd wrth i'r gwaith adeiladu fynd yn ei flaen ac na fydd yn cau'n gyfan gwbl.

Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor am eglurhad ar fesuriadau'r cynnig diwygiedig mewn cymhariaeth a'r cynllun gwreiddiol, yn ogystal â'r defnyddiau ar gyfer y to. Er eu bod yn cydnabod pryderon rhai aelodau'r o'r gymuned ynghylch maint dyluniad y tŷ cwch arfaethedig newydd, roedd consensws y dylid cymeradwyo'r cynnig yn seiliedig ar yr angen amdano a'r gwelliannau diogelwch ac effeithlonrwydd y byddai'r bad achub newydd yn eu cyflwyno i'r gwasanaeth chwilio ac achub ym Moelfre. Cadarnhaodd y Rheolydd Datblygu Cynllunio bod y tŷ cwch arfaethedig oddeutu 1 metr yn uwch na'r adeilad cyfredol ac y bydd y to wedi ei wneud o gopr naturiol.

Cynigiodd y Cynghorydd Kenneth Hughes y dylid cymeradwyo'r cais ac fe gafodd ei eilio gan y Cynghorydd W.J.Chorlton.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau a nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig a'r diwygiad a ddisgrifir i amod 2.**

**12.3 46LPA972/CC – Cais llawn ar gyfer newid defnydd yr hen gyfleusterau cyhoeddus i annedd yn Toiledau Ynys Lawd, Ynys Lawd, Caergybi LL65 1YH**

Adroddir i'r Pwyllgor ar y cais oherwydd ei fod yn gais gan y Cyngor ar dir y mae'n berchen arno.

Cynigiodd y Cynghorydd Richard Dew y dylid cymeradwyo'r cais ac fe gafodd ei eilio gan y Cynghorydd E.G.Davies.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig*. (Ni phleidleisiodd y Cynghorydd Eric Roberts ar y mater fel yr Aelod Lleol)***

**13 MATERION ERAILL**

**13.1 11C591A/TPO – Cais i dopio a thocio 6 o goed sydd wedi eu diogelu gan Orchymyn Diogelu Coed ynghyd â thorri un goeden sydd wedi ei diogelu gan Orchymyn Diogelu Coed yn 16-21 Bro Trehirion, Amlwch.**

Roedd y cais yn gais ar dir y mae'r Cyngor yn berchen arno. Penderfynwyd cymeradwyo'r cais gydag amod bod rhaid i'r gwaith gwrdd â Safon Brydeinig 2998:2010 Gwaith Coed.

**Penderfynwyd nodi'r wybodaeth fel y cafodd ei chyflwyno.**

**Y CYNGHORYDD J.A.ROBERTS**
**CADEIRYDD**